



Adroddiad Arolygu ar gyfer

2 Ffordd Siabod

**2 FFORDD SIABOD
Y FELINHELI
LL56 4XA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/01/2020

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Y darparwr cofrestredig ar gyfer 2 Ffordd Siabod yw Prestwood Residential Homes Ltd, sy'n rhan o CareTech Community Services Ltd. Mae'r gwasanaeth yn darparu llety, gofal personol a chymorth i hyd at ddau oedolyn dros 18 mlwydd oed, sydd ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn ardal breswyl y Marina yn y Felinheli, Gwynedd. Nid oes rheolwr wedi'i gyflogi ar hyn o bryd. Charlotte Smith yw'r unigolyn cyfrifol.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn 2 Ffordd Siabod yn cael dewis am y gweithgareddau y maent yn eu gwneud, ac am y gofal y maent yn ei dderbyn, a gofynnir iddynt ynghylch eu dymuniadau a'u huchelgeisiau. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer priodol o staff addas i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Fodd bynnag, nid yw'r uwch-reolwyr yn rhoi digon o sylw i arferion, prosesau a chymorth i'r staff. Mae'r amgylchedd yn lân, yn cynnwys dodrefn priodol ac wedi'i addurno'n ddeniadol. Mae'r risgiau wedi'u nodi a'u lleihau, ac felly mae'n addas i'r bobl sy'n byw yno.

2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) ac, felly, caiff gwelliannau eu hystyried mewn arolygiadau dilynol.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran 5 o'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ddarparwyr y gwasanaeth eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r argymhellion i wella safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

Penodi rheolwr, asesiadau risg, goruchwyliaeth staff a chyfarfodydd staff, adroddiad ar ansawdd y gofal ac adolygiad o'r cymorth a phrosesau sicrhau ansawdd.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Caiff hawliau a hawliadau'r bobl eu cynnal. Gallant fynegi eu dymuniadau, eu barn ac maent yn cael dewis. Roedd y bobl a oedd yn byw yn y cartref yn cael eu cefnogi'n weithredol i gynnal cydberthnasau teuluol. Roedd cryn dipyn o wybodaeth yn ffeil un unigolyn, a oedd yn cynnwys tystiolaeth i ddangos yr ymgynghorwyd ag ef wrth greu ei gynlluniau gofal, a'i fod wedi'i gynnwys yn y broses honno. Roedd y ddogfen 'Dyma Fi' yn cynnwys hoff a chas bethau, arferion dyddiol, gweithgareddau a nodau er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu ei ddymuniadau. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen a welsom wedi'i dyddio ac nid oedd yn cadarnhau ei bod wedi'i hadolygu na ph'un a oedd y nodau wedi'u cyrraedd ai peidio. Gallai'r bobl bersonoli eu hamgylchedd, roeddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio a pharatoi prydau. Daethom i'r casgliad bod y bobl yn cael cyfleoedd i leisio eu barn, bod y staff yn gwrando arnynt a bod ganddynt rywfaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, ond argymhellwn fod cofnodion 'Dyma Fi' y bobl yn cael eu dyddio, a bod y cynnydd a wnaed ers yr adolygiad diwethaf yn cael ei gofnodi.

Mae arferion a phrosesau ar waith i ddiogelu pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Roedd hyfforddiant ar ddiogelu a dulliau rheoli ymddygiad wedi'i ddarparu yn ystod y broses sefydlu ac roedd y staff wedi cael sesiynau gloywi blynyddol. Roedd cynlluniau ac asesiadau anghenion gofal yn cynnwys asesiadau risg penodol i leihau risg i unigolion. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau hyn wedi cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd prosesau recriwtio a fetio cadarn wedi cael eu dilyn. Cadarnhaodd y staff fod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael iddynt er mwyn iddynt allu deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus am y prosesau i'w dilyn pe bai pryder yn codi. Mae dulliau priodol ar waith i leihau risgiau a diogelu'r bobl sy'n byw yn y cartref, ond nid oedd dogfennaeth berthnasol yng nghynlluniau personol y bobl wedi'i hadolygu yn ôl yr angen.

Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Gwelsom fod y staff gofal yn fedrus ac yn ymdrin â'r bobl gan ddangos parch ac urddas. Roedd y tîm rheoli'n sicrhau bod y lefelau staffio yn ddigonol i sicrhau'r lefelau priodol o gymorth er mwyn diwallu anghenion unigol. Roedd amgylchedd y gwasanaeth yn gartrefol, a oedd yn agwedd gadarnhaol ar gyfer llesiant yr unigolion. Roedd y bobl wedi cael eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau iechyd ac roedd apwyntiadau wedi cael eu trefnu yn ôl yr angen. Caiff y bobl eu hannog i fod yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol sy'n hybu llesiant y bobl.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu. Yn ôl y datganiad o ddiben, mae'r gwasanaeth yn cyflogi 3 aelod o staff Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd. Gwelsom un aelod

o'r staff yn siarad Cymraeg yn ystod yr ymweliadau arolygu, ac roedd y rheolwr a oedd yn cyflenwi yn siarad Cymraeg hefyd. Dywedodd y rheolwr a oedd yn cyflenwi y gellid defnyddio'r staff sy'n siarad Cymraeg i weithio gydag unigolion a oedd am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol a gofalgar â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin â pharch ac urddas. Roedd cynlluniau personol y bobl yn cynnwys cynlluniau cymorth unigol, wedi'u cynllunio'n unol ag anghenion unigol penodol. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o asesu a chynllunio eu gofal. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r ddogfennaeth i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y canlyniadau roedd y bobl am eu cyflawni. Roedd cynlluniau cymorth unigol yn cynnwys anghenion y bobl o ran cyfathrebu; byw o ddydd i ddydd; trefniadau ariannol; cyswllt â'u teulu a chydberthnasau; ymddygiadau ac iechyd corfforol. Roedd y cynlluniau wedi'u hadolygu bob tri mis, a gwelsom gofnodion cyfarfodydd amlddisgyblaethol a gynhaliwyd â gweithwyr cymdeithasol y bobl i adolygu'u cynlluniau personol. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn teimlo bod y staff yn gwrando arno a'i fod yn hoffi'r staff a oedd yn gweithio gydag ef. Dywedodd ei fod yn teimlo'n gyfforddus i fynegi ei ddymuniadau i'r staff a'r rheolwr a oedd yn cyflenwi. Ymgynghorir â'r bobl am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a rhoddir ystyriaeth i'w ddymuniadau a'u huchelgeisiau.

Er bod y cynlluniau personol unigol wedi'u diweddarau bob tri mis, gwelsom nad oedd yr asesiadau risg, a oedd yn nodi risgiau gwirioneddol neu bosibl a strategaethau i leihau risg, wedi cael eu hadolygu mor aml. Gall y bobl deimlo'n hyderus bod y staff yn ymwybodol o'u ddymuniadau a'u gofynion, ond dylai asesiadau risg gael eu hadolygu bob tri mis, neu'n amlach os oes angen, er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth ddiweddaraf am sut i ddarparu gofal i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Ni all y bobl fod yn hyderus bod gan y staff gynllun cywir a chyfredol ar gyfer darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban a diogelu ac y byddent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon pe bai angen. Cadarnhaodd unigolyn ei fod yn ymwybodol o'r weithdrefn cwyno a sut i fynd ati i godi unrhyw bryderon. Cadarnhaodd ei fod yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Roedd y staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu gofal a chymorth gan ddefnyddio dull rheoli ymddygiad penodol. Rydym o'r farn bod gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae trefniadau ar waith i fonitro, cynnal a hyrwyddo iechyd corfforol a llesiant emosiynol y bobl. Roedd y bobl wedi'u cofrestru â meddyg teulu, deintydd ac optegydd. Roedd y cartref yn hybu byw'n iach, ac roedd y bobl yn cael eu hannog i fwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Roedd llesiant emosiynol yn cael ei flaenoriaethu, ac mae'r cartref wedi bod yn cyfathrebu'n dda â gwasanaethau eraill. Mae'r bobl yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u lles yn barhaus.

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn cartref glân sy'n darparu amgylchedd wedi'i bersonoli. Mae'r cartref yn dŷ teras diwedd y rhes â dwy ystafell wely ar ystâd dai preswyl. Mae dwy ystafell wely, ystafell ymolchi a swyddfa ar y llawr gwaelod ac i fyny'r grisiau, mae lolfa/ystafell fwyta a chegin fodern sy'b cynnwys yr holl offer angenrheidiol. Wrth gerdded o gwmpas y cartref, gwelsom fod yr ystafell ymolchi a'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus a bod y dodrefn, y ffitiadau a'r gosodiadau o ansawdd da a'u bod mewn cyflwr da. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod wrth ei fodd â'i ystafell wely, ei fod wedi cael dewis y décor a phersonoli'r ystafell yn unol â'i chwaeth bersonol. Dywedodd hefyd ei fod yn hoffi'r ardaloedd cymunedol ond y byddai'n hoffi newid lliw y lolfa. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd cyfforddus sy'n hyrwyddo eu llesiant ac sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle yn cael eu cynnal. Roedd risgiau wedi cael eu nodi a'u lleihau gymaint â phosibl ar gyfer yr amgylchedd, ac roedd asesiadau wedi cael eu hadolygu. Roedd y cofnodion a archwiliwyd yn cadarnhau bod gwiriadau o'r boeler, y dyfeisiau trydanol a'r cyfarpar diogelwch tân yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei brofi bob wythnos, bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod asesiad risg tân ar waith. Roedd y darparwr wedi rhoi cwmni ar gontract i asesu iechyd a diogelwch yn y cartref yn flynyddol, ac ymwelodd y cwmni â'r cartref yn ystod yr arolygiad i gynnal yr asesiad. Roedd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel, ac ni allai ymwelwyr ddod i mewn i'r cartref heb fod gwiriadau adnabod yn cael eu cynnal. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel lle y caiff risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch eu nodi a'u rheoli.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Roedd y datganiad o ddiben yn amlinellu ethos, nodau ac amcanion y gwasanaeth, ac yn darparu gwybodaeth am gyflenwi'r gwasanaeth. Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael gofal yn y ffordd a ddisgrifir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth. Lluniwyd 'Canllaw i'r Cartref' a darparwyd copi ohono i'r bobl. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth.

Mae'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol. Gwelsom rota'r staff, a oedd yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi'n unigol; roedd y lefelau staffio yn adlewyrchu hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod y staff yn fedrus wrth gyfathrebu a gweithio gydag unigolion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff ar gael bob amser. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod gan y staff gofal amrywiaeth o brofiadau o weithio gyda phobl cyn y rôl hon, a oedd yn golygu bod ganddynt brofiad perthnasol ar gyfer eu rôl gofal. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant a oedd yn briodol i anghenion y bobl roeddent yn eu cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer priodol o staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cartref o ddydd i ddydd yn ddigon cadarn. Nid oedd rheolwr cofrestredig wedi'i gyflogi, ac nid oedd y trefniadau cyflenwi'n ddigonol. Er i ni gael gwybod bod modd cysylltu â rheolwyr o gartrefi gofal eraill a ddarperir gan Prestwood Residential Care Ltd, a'u bod yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, nid oedd yn amlwg bod y staff a oedd yn gweithio yn y cartref wedi'u cefnogi'n briodol o ran goruchwyliaeth ac nid oedd cyfarfodydd tîm wedi cael eu cynnal. Er bod aelod o'r staff wedi dweud ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi, yn mwynhau ei waith ac yn teimlo y gallai gysylltu â rheolwyr, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi cael goruchwyliaeth yn unol â'r rheoliadau. Ni all y bobl fod yn sicr bod y trefniadau rheoli yn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn dda a bod y staff yn cael eu cefnogi'n briodol.

Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth, ond mae'r systemau'n annigonol. Er bod trefniadau dros dro wedi cael eu gwneud i'r uwch-reolwyr oruchwyllo'r gwasanaeth a chefnogi'r staff, nid oedd hyn wedi bod yn effeithiol ar y cyfan o ran sicrhau bod safonau sicrhau ansawdd yn cael eu cyrraedd. Roedd y sefydliad yn gweithredu system sicrhau ansawdd haenog, gyda rheolwr y cartref, a oedd wedi gadael ym mis Gorffennaf 2019, yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr ardal a thîm ansawdd y sefydliad yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir. Darparodd yr unigolyn cyfrifol ddogfennaeth i ddangos ei bod wedi ymweld â'r gwasanaeth i gyfarfod â'r unigolion a'r staff ac i ddarllen a gwirio'r cofnodion ym mis Awst 2019. Roedd adroddiad yr unigolyn cyfrifol wedi nodi materion ac achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau, ac roedd y diffygion a nodwyd yn yr adroddiad i'w gweld hefyd yn ystod yr arolygiad hwn. Mae hyn yn dangos bod camau gweithredu a nodwyd heb gael

eu rhoi ar waith yn effeithiol. Er bod adroddiad yr unigolyn cyfrifol yn cyfeirio at drafodaethau â rhai o'r bobl a oedd yn byw yn y cartref a'r staff yn ystod ei ymweliadau, ni welsom fod barn y bobl wedi cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth. Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol adolygu ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth bob chwe mis a llunio adroddiad. Dylai'r adolygiad cyntaf fod wedi cael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2019, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi digwydd. Mae angen rhoi sylw i ddulliau sicrhau ansawdd er mwyn dangos ymrwymiad i wella'n barhaus er budd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

Rheoliad 67- Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi penodi rheolwr i reoli'r gwasanaeth.

Nodir manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr hysbysiad diffyg cydymffurfio sydd ynghlwm.

Rydym hefyd wedi hysbysu'r person cofrestredig bod angen cymryd camau mewn perthynas â'r rheoliadau canlynol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn

Rheoliad 6 – Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau gofal a medrusrwydd digonol ar gyfer y gwasanaeth. Nid oedd y trefniadau ar gyfer cynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ddigonol, o ystyried nad oedd rheolwr cofrestredig wedi'i gyflogi.

Rheoliad 16 – Rhaid i'r cynllun personol gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis. Roedd y cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth yn y cynlluniau cymorth unigol am anghenion y bobl, ond nid oedd asesiadau risg wedi cael eu hadolygu ar yr adegau gofynnol nac ar ôl digwyddiad.

Rheoliad 36 – Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n a'i arfarnu'n briodol.

Rheoliad 38 – Dylid cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn), a chaiff y materion a drafodir eu cofnodi gan gymryd camau priodol yn eu sgil.

Rheoliad 80 – Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu adroddiad o'i adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth i ddarparwr y gwasanaeth.

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi dweud y bydd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, a gynhaliwyd yn gynharach na'r dyddiad bwriadedig am fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu heb reolwr ers mis Gorffennaf 2019.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 15 Ionawr 2020 rhwng 9.15a.m. a 4.10p.m.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr arolygiad yn cynnwys:

- Trafodaethau â'r aelod o staff a oedd ar ddyletswydd.
- Trafodaethau â rheolwr un o wasanaethau eraill Prestwood Residential Homes Ltd a oedd wedi bod yn cynorthwyo'r cartref.
- Arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y bobl a'r aelod o staff a'r rheolwr o'r cartref arall.
- Archwiliad gweledol o'r cartref.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys:

- Y datganiad o ddiben.
- Cofnodion yn ymwneud ag unigolyn, gan gynnwys dogfennau cynllunio gofal, asesiadau risg a chofnodion cysylltiedig.
- Cofnodion yn ymwneud â recriwtio staff.
- Cofnodion goruchwyllo'r staff.
- Rotas staff.
- Cofnodion hyfforddiant y staff.
- Cofnodion sicrhau ansawdd.
- Y polisi cwyno.

Gwnaethom ystyried pryder a ddaeth i law AGC cyn yr arolygiad. Roedd y pryder yn ymwneud â'r canlynol:

- Mae niferoedd isel o aelodau staff parhaol, sy'n golygu bod angen defnyddio staff asiantaeth. Mae hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth o ran diffyg cysondeb gofal.
- Nid yw meddyginiaeth yn cael ei gweinyddu yn ôl yr angen.
- Diffyg cymorth rheoli.

Gwelsom fod y problemau staffio wedi cael eu datrys a bod yr unigolyn a oedd yn cael cymorth yn cael ei gefnogi gan dîm o staff parhaol. Ni welsom unrhyw wallau o ran meddyginiaeth yr unigolyn a oedd yn byw yn y cartref. Nid oedd rheolwr yn goruchwyllo gweithrediad y cartref. Roedd hyn wedi arwain at fethiant i adolygu'r cofnodion mor aml ag sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Hefyd, nid oedd y staff wedi cael goruchwylloeth un i un na'r cyfle i fynychu cyfarfodydd tîm i drafod anghenion y bobl a materion yn ymwneud ag ymarfer mewn fforwm ffurfiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr y Gwasanaeth	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Unigolyn Cyfrifol	Charlotte Smith
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	2
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	26/02/2019 a 27/02/2019
Dyddiad yr ymweliad Arolygu hwn	15/01/2020
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 29/07/2020